**Pecyn Cais am Swydd**

# Adolygydd Annibynnol Hyfforddiant Dawns Gymunedol yng Nghymru

Rubicon Dance
Stryd Nora
Caerdydd
CF24 1ND

02920 491477
info@rubicondance.co.uk
www.rubicondance.co.uk

**Annwyl Ymgeisydd**

Diolch i chi am fynegi diddordeb mewn gweithio gyda Rubicon Dance yn rôl Adolygydd Annibynnol ar gyfer Rhgalen Hyfforddiant Cymru Gyfan.

Mae Rubicon Dance yn bodoli i ddatgloi hunanfynegiant fel y gall bobl ddarganfod eu potensial, teimlo cymhelliant a chysylltiad â'r byd. Credwn y dylai pawb gael y cyfle i feithrin eu talentau unigol. Dyna pam ein cenhadaeth yw herio safbwyntiau traddodiadol o'r hyn y mae'n golygu i ddawnsio; boed hynny'n lle yr ydym yn dawnsio, gyda phwy yr ydym yn dawnsio, neu sut olwg sydd ar fynegiant artistig.


Rheolir Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan (WWTP) gan Rubicon Dance ac ym mis Mawrth 2026 dathlodd 13 mlynedd o wasanaethu'r sector dawns yng Nghymru. Yn bennaf yn rhaglen hyfforddi ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes dawns, nod WWTP yw ysbrydoli a chynnal dawns gymunedol yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant sy'n ymateb i anghenion y sector. Cefnogwyd rhaglen 2025/2026 gan grant Creu gan Gyngor Celfyddydau Cymru gyda chyllid cyfatebol gan Sefydliad Waterloo.

Fel llawer o sefydliadau celfyddydol, mae Rubicon wedi dod trwy sawl cyfnod heriol dros y blynyddoedd diwethaf ond rydym wedi bod yn ymgymryd â phroses eang o adnewyddu ac ailstrwythuro sydd wedi ein harwain i adennill persbectif cadarnhaol, a'r hyder i greu rolau deinamig newydd o fewn y sefydliad.

Yn y pecyn hwn mae gwybodaeth gefndir, ynghyd â'r manylion ymarferol sydd eu hangen arnoch i wneud cais am y swydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech sgwrs anffurfiol a chyfrinachol am y rôl, cysylltwch â ni i drefnu hyn drwy anfon e-bost at tracey@rubicondance.co.uk. Am fwy o wybodaeth am Rubicon Dance a Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan, ymwelwch â'n gwefan www.rubicondance.co.uk.

Diolch eto am eich diddordeb yn Rubicon Dance. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir,



**Simon Morris**
Prif Swyddog Gweithredol
Rubicon Dance

Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan Dawns
Dance Wales Wide Training Programme

**Tendr ar gyfer Adolygiad Annibynnol o Hyfforddiant Dawns Gymunedol yng Nghymru**

Mae Rubicon Dance yn arwain ar gomisiynu Adolygiad Annibynnol o Hyfforddiant Dawns Gymunedol yng Nghymru ac yn ceisio penodi ymgynghorydd/ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith hwn. Bydd y contract yn dechrau ym Mehefin/Gorffennaf 2026 ac yn rhedeg tan 30 Tachwedd 2026. Y gyllideb sydd ar gael yw **£11,500** (gan gynnwys teithio, deunyddiau a TAW).

**Cefndir:**

Mae ymarferwyr dawns, artistiaid a sefydliadau sy'n gweithio mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo creadigrwydd, lles, cyfranogiad diwylliannol, ac ymgysylltiad gydol oes â'r celfyddydau. Mae eu gwaith yn ymestyn ar draws iechyd, addysg, y blynyddoedd cynnar, anabledd, iechyd meddwl a chyd-destunau cymunedol ehangach. Mae'r mwyafrif o ymarferwyr ac artistiaid sy'n gweithio yn y maes hwn yn llawrydd, ac mae eu gallu i gynnal ymarfer o safon uchel yn dibynnu ar gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a pherthnasol ynghyd â rhwydweithiau cyfoedion cryf sy'n darparu cysylltiad, a chefnogaeth.

Mae'r *Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan* bresennol wedi cael ei chyflwyno gan Rubicon Dance ers 2013 ac mae wedi sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus, cysylltiad yn y sector, a hyfforddiant ymarferol i artistiaid ac ymarferwyr dawns gymunedol ledled Cymru. Mae'r rhaglen, sydd wedi'i chefnogi'n dda, wedi dangos galw clir am ddysgu, rhannu, hyfforddiant a DPP strwythuredig gydag opsiynau cyfunol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae wedi cryfhau rhwydweithiau proffesiynol ac wedi cefnogi a chysylltu ymarferwyr ac artistiaid sy'n gweithio ar draws arbenigeddau a lleoliadau cynhwysol ac amrywiol o ledled Cymru.

Mae tair blynedd ar ddeg o dyfu, dysgu, perthnasau, a seilwaith wedi'u datblygu drwy'r rhaglen hon gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol mewn sector dawns gymunedol sy'n newid yn barhaus. Mae'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Dawns Cymru a blaenoriaethau strategol ehangach sy'n ymwneud â Chyfiawnder Hinsawdd, y Gymraeg ac ymarfer Gwrth-hiliol yn gofyn am gyfnod o fyfyrio ar y rhaglen.

Er mwyn cyflawni hyn, cynigiodd Rubicon Dance raglen waith ddeubig dros chwe mis i Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae hyn bellach yn ffurfio sail y myfyrio a'r adolygu hwn. Bydd rhaglen o ddarpariaeth barhaus – sy'n hanfodol i'r sector dawns gymunedol yng Nghymru – yn rhedeg ochr yn ochr â chyfnod strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol o fyfyrio a all asesu'r model presennol yn feirniadol ac, ar y cyd, llunio sut y gallai hyfforddiant dawns gymunedol yng Nghymru edrych yn ystod y degawd nesaf.

**Cwmpas y Gwaith:**

Cydnabyddwn fod cwmpas y gwaith yn gymhleth oherwydd y ffrydiau cyfochrog o ddarparu ac adolygu ac eto credwn eu bod yn gyd-ddibynnol ac yn hanfodol. Bydd y rhaglen hyfforddi yn sicrhau parhad cefnogaeth i'r sector, ac ar yr un pryd yn llunio gweledigaeth glir a rennir ar gyfer ei ddatblygiad hirdymor. Mae'r dull cyfunol hwn o barhad mewn darpariaeth (sy'n hanfodol i ymarferwyr ac artistiaid) ochr yn ochr â myfyrio dan arweiniad annibynnol ac ail-ddychmygu cydweithredol wedi'i lywio gan y sector ar gyfer y dyfodol, yn amserol ac yn gyffrous i raglen WWTP.

Hyd yma, nid yw WWTP wedi cael cyfle i gynnal adolygiad annibynnol strwythuredig o'i gwaith, er gwaethaf gwerthuso rheolaidd, ac rydym wir yn croesawu hyn. Ein gobaith yw y bydd gweithio gyda'r Adolygydd Annibynnol yn ein galluogi i ailfodelu'r rhaglen a phenderfynu beth allai fod ei angen i ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi berthnasol a fydd yn rhan o hyfforddiant Dawns Gymunedol yng Nghymru dros y degawd nesaf.

Rubicon Dance fydd yn gyfrifol am gontractio'r Adolygydd Annibynnol ond bydd yn sicrhau bod y broses adolygu yn gweithredu ar hyd braich oddi wrth y ddarpariaeth gan dynnu ar rywfaint o'r dysgu o'r ddarpariaeth i lywio casgliadau ac argymhellion yr adolygiad. Bydd yr ymgynghorydd/ymgynghorwyr a benodir yn cadw ymreolaeth o ran dylunio'r ymgynghoriad, dadansoddi ac argymhellion.

Rydym wedi ymrwymo i ffurfio partneriaeth agored, dryloyw a chydweithredol gyda'r adolygydd annibynnol. Bydd ein dull o weithio yn sicrhau bod ganddynt yr ymreolaeth, y mynediad a'r mewnwelediad sydd eu hangen i gyflwyno adolygiad trylwyr a diduedd, gan alluogi dysgu i gael ei integreiddio i brosesau darparu yn effeithiol.

Er mwyn cefnogi'r broses, bydd Rubicon yn:

- Parhau i fonitro a gwerthuso'r rhaglen hyfforddi barhaus a gynlluniwyd a rhannu data, mewnwelediad a dysgu, gan sicrhau bod gan yr adolygydd fynediad amserol ac ystyrlon at wybodaeth ar draws y broses ddarparu. Byddwn yn darparu data i'r Adolygydd Annibynnol yn ôl yr angen. Bydd dulliau gwerthuso yn casglu data meintiol (e.e. lefelau cyfranogiad, ymgysylltiad rhanbarthol) a mewnwelediad ansoddol (e.e. newidiadau mewn hyder, datblygiad artistig, cyflogadwyedd, cysylltedd, cefnogaeth a chryfder y rhwydwaith);
- Hwyluso mynediad at ymarferwyr, sefydliadau a rhanddeiliaid er mwyn galluogi'r adolygydd i ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen drwy drefnu cyfweliadau, arsylwadau, grwpiau ffocws a chyfarfodydd yn ôl yr angen, gan ganiatáu i'r adolygydd ymgysylltu'n annibynnol â rhanddeiliaid i sicrhau bod adborth yn ddiduedd;
- Darparu mynediad at ddata hanesyddol a gasglwyd dros gyfnod gweithredu WWTP;
- Ymgorffori mynediad at ddarpariaeth hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall yr adolygydd ymgysylltu'n uniongyrchol â hi er mwyn cael mewnwelediad gwirioneddol i'r ymarfer, y cyd-destun a phrofiad cyfranogwyr. Gallai hyn gynnwys arsylwi sesiynau hyfforddi byw, gweithdai neu ddosbarthiadau, a mynediad at ystod gynrychioliadol o sesiynau ar draws gwahanol hwyluswyr, carfannau, a fformatau;
- Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad fel partner a rhanddeiliad gan sicrhau nad oes gwrthdrawiad buddiannau – gweler Atodiad dau;

- Ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg – Byddwn yn mabwysiadu dull rhagweithiol a myfyriol o ymgysylltu â chanfyddiadau drwy groesawu mewnwelediadau interim ac argymhellion cynnar, gan eu defnyddio i gryfhau'r ddarpariaeth barhaus, cymryd rhan mewn trafodaethau dysgu i gefnogi dealltwriaeth gyffredin ac archwilio goblygiadau, gan wneud addasiadau i'r ddarpariaeth lle mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos cyfleoedd i wella, a datblygu cynllun gweithredu i weithredu'r argymhellion terfynol ac ymgorffori'r dysgu mewn ymarfer yn y dyfodol a modelau darparu hirdymor.

Arweinir y Broses Annibynnol gan yr Adolygydd Annibynnol, gan gydweithio â rhanddeiliaid gan gynnwys sefydliadau a gweithwyr llawrydd ledled Cymru i rannu dysgu o'r ddarpariaeth a chyfrannu at sgyrsiau cyd-ddylunio. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys y rhai sy'n arwain y WWTP bresennol yn ogystal â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rhagwelwn y bydd yr adolygiad yn:

- Ymgysylltu â gweithwyr llawrydd, ymarferwyr ac artistiaid gyrfa gynnar a sefydledig, artistiaid dwyieithog a Chymraeg eu hiaith yn ogystal â'r rhai o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, artistiaid anabl, ac ymarferwyr sy'n gweithio mewn cymunedau gwledig a threfol, gan sicrhau cynrychiolaeth ar draws daearyddiaeth, iaith, cam gyrfa a nodweddion gwarchodedig;
- Hwyluso cyd-ddylunio ystyrlon a pherchnogaeth ar y cyd wrth lunio'r model hyfforddi i'r dyfodol drwy gamau a dulliau ymgynghori wedi'u diffinio'n glir (e.e. cynulliadau, trafodaethau bord gron, arolygon, grwpiau ffocws a grwpiau cynghori – wyneb yn wyneb ac ar-lein);
- Dadansoddi a chyfleu'r dysgu allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad a'r ddarpariaeth. Dylai hyn hefyd ddangos sut mae'r model hwn yn cryfhau seilwaith y sector, llwybrau datblygu, ansawdd a chysylltedd cenedlaethol.

**Allbynnau:**

- **Dogfen gwmpasu** y cytunwyd arni sy'n amlinellu'r dull gweithredu ac sy'n cael ei rhannu gyda'r sector er mwyn sicrhau perchnogaeth ac eglurder ynghylch disgwyliadau am y broses a'r allbynnau arfaethedig;
- **Adroddiadau cerrig milltir interim** (llafar) sy'n ailadroddol eu natur ac sy'n gallu llywio datblygiad a gwelliant y rhaglen ddarparu wrth i'r gwaith fynd rhagddo;
- **Fframwaith darparu** a gweledigaeth wedi'u diffinio ar gyfer model hyfforddi dawns gymunedol Cymru gyfan sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sydd wedi'i alinio â blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru ac anghenion y sector. Dylai hyn gynnwys dulliau cynaliadwyedd, modelau partneriaeth, ystyriaethau llywodraethu, ac egwyddorion darparu arfaethedig.

Ein gobaith yw y bydd y gwaith yn cyflawni'r **canlyniadau** canlynol:

- Mwy o hyder ar draws y sector a mwy o berchnogaeth ar y cyd dros gyfeiriad y dyfodol;
- Cynaliadwyedd, ansawdd, llwybrau datblygu a seilwaith cryfach;
- Model hyfforddi cenedlaethol mwy cydlynol ac wedi'i alinio'n strategol

Bydd y fframwaith darparu terfynol ar gyfer hyfforddiant dawns gymunedol yng Nghymru yn cael ei rannu'n eang gyda'r sector dawns gan gynnwys sefydliadau a gweithwyr llawrydd presennol yn ogystal â chyrraedd y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r rhaglen ar hyn o bryd. Dylai'r adroddiad terfynol wneud yr angen am hyfforddiant mewn dawns gymunedol yng Nghymru yn glir i'r sector a chyllidwyr a phartneriaid newydd posibl (e.e. awdurdodau lleol a byrddau iechyd).

Mae dadansoddiad o'r **rhaglen hyfforddi arfaethedig** wedi'i gynnwys yn Atodiad Un a gobeithiwn y bydd yr Adolygydd Annibynnol yn ymuno â detholiad o'r digwyddiadau. Mae'n bosibl y bydd yr amserlen yn destun adolygu wrth weithio ochr yn ochr â'r adolygydd annibynnol ac yn ymatebol i ganfyddiadau ymchwil a'r broses ail-ddychmygu ddeinamig.

Disgwylir i allbynnau'r rhaglen hyfforddi arfaethedig fod

- Rhaglen gydlynol o gyfleoedd rhwydweithio a DPP;
- Cyrhaeddiad daearyddol eang a chyfranogiad cynhwysol;
- Ymgysylltiad ar draws sawl maes ymarfer dawns gymunedol.

Gobeithiwn y bydd hyn yn cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gwell ansawdd artistig, hyder, a chyflogadwyedd ymhlith yr artistiaid sy'n cymryd rhan;
- Rhwydweithiau dawns cryfach, mwy cysylltiedig, a mwy cefnogol ledled Cymru;
- Gwell tegwch o ran mynediad at ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant fforddiadwy a rheolaidd;
- Mynegiant clir o fodel hyfforddi penodol i Gymru sy'n cefnogi ymarfer wedi'i harwain gan werthoedd.

**Meini Prawf ar gyfer yr Adolygydd Annibynnol:**

Rydym yn edrych i benodi ymgynghorydd/ymgynghorwyr neu gwmni sy'n gallu cyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen chwe mis.

Mae'r meini prawf hanfodol yn cynnwys:

- Gwybodaeth am y sector dawns gymunedol yng Nghymru;
- Profiad helaeth o ystod eang o ddulliau ymgynghori, gwerthuso ac ymchwil sy'n arwain at ganlyniadau cyhoeddadwy;
- Y gallu i gasglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol a dod i gasgliadau y gellir gweithredu arnynt;
- Gwybodaeth ac arbenigedd ym maes darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau;
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio mewn ffyrdd traws-sector gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, er enghraifft y sector iechyd ac awdurdodau lleol;
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol;
- Y gallu i ysgrifennu adroddiadau clir a chryno.

Mae'r meini prawf dymunol yn cynnwys:

- Siaradwr Cymraeg;
- Gwybodaeth am lywodraeth yng Nghymru a'r cyd-destunau polisi a gwleidyddol;

**Canllawiau Cyflwyno:**

Dylid cyflwyno tendrau i ymgymryd â'r briff hwn i Tracey Brown, Rheolwr Rhanddeiliaid, Rubicon Dance erbyn **16 Mehefin 2026 (5.00pm)**

Cynhelir cyfweliadau gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer ar **24 Mehefin 2026**, a byddem yn gobeithio dechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Dylai tendrau a gyflwynir gynnwys:

- Datganiad byr yn amlinellu eich profiad, eich gwybodaeth a'ch sgiliau - sut mae'r rhain yn eich galluogi i gyflawni'r briff a pham mae gennych ddiddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith;
- Cynnig yn amlinellu eich dull o weithredu mewn perthynas â'r briff cymhleth hwn gan gynnwys trosolwg o'ch cynllun gwaith arfaethedig;
- Dadansoddiad o'r gyllideb sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys nifer y diwrnodau a gynigir a'ch cyfradd ddyddiol;
- Amlinelliad o'r gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnoch gan Rubicon Dance er mwyn sicrhau bod y contract hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus;
- Enghreifftiau o adroddiadau gwerthuso perthnasol blaenorol ar gyfer prosiectau tebyg;
- Dau eirda, gan gynnwys un y gallwn gysylltu â nhw cyn y cyfweliad.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch â tracey@rubicondance.co.uk

**ATODIAD UN: Y Rhaglen Hyfforddi – Mehefin/Gorffennaf i Dachwedd 2026**

Isod ceir ddadansoddiad o'r rhaglen hyfforddi arfaethedig a gobeithiwn fydd yr Adolygydd Annibynnol yn ymuno â detholiad o'r digwyddiadau. Mae'n bosibl y bydd yr amserlen yn destun adolygiadau wrth weithio ochr yn ochr â'r adolygydd annibynnol ac yn ymatebol i ganfyddiadau ymchwil a'r broses ail-ddychmygu ddeinamig.

Drwy gydol y rhaglen, byddwn yn canolbwyntio ar rai o'r canlynol:

- Dawns ar gyfer Parkinson's
- Y Gymraeg
- Dawns ac iechyd, gan gynnwys atal cwympiadau
- Iechyd meddwl ymarferwyr ac artistiaid a ffiniau wrth weithio mewn cyd-destunau anodd/heriol
- Gweithio gyda phlant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd
- Gwrth-hiliaeth mewn dawns
- Dawns mewn ysgolion cynradd/datblygiad athrawon
- Cyfiawnder hinsawdd yn y celfyddydau
- Ffocws ar y blynyddoedd cynnar/gweithio mewn meithrinfeydd/ysgolion/datblygiad plant
- Cymorth Lles ac Ymarfer Creadigol ar gyfer artistiaid ac ymarferwyr dawns llawrydd

Lle bo modd mae ein harweinwyr gweithdai, cyflwynwyr a hwyluswyr yn ymarferwyr ac artistiaid sydd â phrofiad byw (er enghraifft pobl gydag anableddau, pobl sydd wedi wynebu heriau iechyd meddwl, pobl niwroamrywiol, pobl awtistig, pobl o'r mwyafrif byd-eang, pobl fyddar neu bobl sydd â nam ar y golwg), yn ogystal â'r ymarferwyr a'r artistiaid medrus ac uchel eu parch hynny sydd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad mewn meysydd arbenigol o fewn y sector sy'n ysbrydoli eraill i ymgysylltu â nhw drwy'r rhaglen hyfforddi.

**<u>Mehefin 2026</u>**

***Ffocws ar;–***
*Lles ymarferwyr dawns/ymarfer creadigol*
*Cyfiawnder Hinsawdd yn y Celfyddydau*
*Dawns ar gyfer Pobl sy'n byw gyda Parkinson's*
*Y Gymraeg*

**2 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns. Cynhelir y sesiynau'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – wyneb yn wyneb neu ar-lein.
**2 x Cyflwyniad/sgwrs ar-lein i rannu, ysbrydoli, cysylltu, a chymell ymarferwyr sy'n datblygu ac ymarferwyr profiadol.**
**1 x sesiwn Gymraeg un-i-un/grŵp bach** – sesiwn wedi'i theilwra sy'n cefnogi ymarferwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith eu hunain.

**<u>Gorffennaf 2026</u>**

***Ffocws ar;-***
*Uwchsgilio ymarferwyr dawns drwy hyfforddiant wyneb yn wyneb i ganolbwyntio ar ddawns mewn ysgolion, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar*
*Lles ymarferwyr dawns/ymarfer creadigol*
*Y Gymraeg*
*Dawns mewn cartrefi gofal a chyfleusterau byw â chymorth*
*Atal cwympiadau*

**1 x Diwrnod DPP wyneb yn wyneb** – mewn ardal drefol yng Nghymru
**1 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns. Cynhelir y sesiynau'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – wyneb yn wyneb neu ar-lein.
**2 x Cyflwyniad/sgwrs ar-lein i rannu, ysbrydoli, cysylltu, a chymell ymarferwyr sy'n datblygu ac ymarferwyr profiadol.**
**1 x Sesiwn Gymraeg un-i-un/grŵp bach - sesiwn wedi'i theilwra sy'n cefnogi ymarferwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith eu hunain**

**<u>Awst 2026</u>**

***Ffocws ar;-***
*Lles ymarferwyr dawns*
*Y Gymraeg*

**1 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns. Cynhelir y sesiynau'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – wyneb yn wyneb neu ar-lein.
**1 x Sesiwn Gymraeg un-i-un/mewn grŵp bach - sesiwn wedi'i theilwra sy'n cefnogi ymarferwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith eu hunain**

**<u>Medi 2026</u>**

***Ffocws ar;-***
*Lles ymarferwyr dawns*
*Y Gymraeg*
*Dawns ar gyfer y blynyddoedd cynnar*
*Fforwm Rhannu Arfer/Arfer Gorau - dathlu cryfderau mewn meysydd gwaith gan bartneriaid WWTP*
*Cymorth gwerthuso i weithwyr llawrydd*
*Graddedigion ac artistiaid ac ymarferwyr sy'n datblygu*
*Dawns ac anabledd*

**2 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns. Cynhelir y sesiynau'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – wyneb yn wyneb neu ar-lein.
**1 x Cyflwyniad/sgwrs ar-lein i rannu, ysbrydoli, cysylltu, a chymell ymarferwyr sy'n datblygu ac ymarferwyr profiadol.**
**1 x Sesiwn Gymraeg un-i-un/grŵp bach**
**1 x Fforwm Rhannu Arfer/Arfer Gorau** - materion/themâu cyfredol i'r sector lle mae partneriaid yn rhannu elfen o'u gwaith ag eraill
**2 x Sesiwn un-i-un wedi'u teilwra gyda gwerthuswr.** Bydd y sesiynau ar-lein hyn yn cynnig arweiniad a chymorth wedi'u teilwra o ran gwerthuso rhaglen, sesiwn neu brosiect, ac maent wedi'u hanelu at weithwyr llawrydd.
**1 x Sesiwn wybodaeth i raddedigion/artistiaid sy'n datblygu ynghylch hyfforddiant yng Nghymru.**
**1 x Sgwrs Wadd**

**<u>Hydref 2026</u>**

***Ffocws ar;-***
*Uwchsgilio ymarferwyr dawns drwy hyfforddiant wyneb yn wyneb sy'n canolbwyntio ar anghenion ymarferwyr dawns gwledig sy'n gweithio mewn cyd-destunau cymunedol*
*Lles ymarferwyr dawns*
*Cyfiawnder Hinsawdd yn y Celfyddydau*
*Gwrth-hiliaeth mewn dawns*
*Y Gymraeg*
*Fforwm Rhannu Arfer/Arfer Gorau – dathlu cryfderau mewn meysydd gwaith gan bartneriaid*
*Cymorth gwerthuso i weithwyr llawrydd*
*Dawns a phobl ifanc*

**1 x Cyfle DPP wyneb yn wyneb** – mewn rhan wledig o Gymru
**2 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns. Cynhelir y sesiynau'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – wyneb yn wyneb neu ar-lein.
**2 x Cyflwyniad/sgwrs ar-lein i rannu, ysbrydoli, cysylltu, a chymell ymarferwyr sy'n datblygu ac ymarferwyr profiadol.**
**1 x Sesiwn Gymraeg un-i-un/grŵp bach**

**2 x Sesiwn un-i-un wedi'u teilwra gyda gwerthuswr.** Bydd y sesiynau ar-lein hyn yn cynnig arweiniad a chymorth wedi'u teilwra o ran gwerthuso rhaglen, sesiwn neu brosiect, ac maent wedi'u hanelu at weithwyr llawrydd.
**1 x Sgwrs Wadd**

<u>**Tachwedd 2026**</u>

***Ffocws ar;-***
*Lles ymarferwyr dawns*
*Dawns ac Anabledd*
*Y Gymraeg*
*Ymgysylltu â'r Gymuned*
*Fforwm Rhannu Arfer/Arfer Gorau – dathlu cryfderau mewn meysydd gwaith gan bartneriaid*
*Ffilm i gofnodi rhaglen DPP wyneb yn wyneb ac anghenion ymarferwyr dawns sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig*
*Grwpiau ymylol dynion a dawns/iechyd meddwl, dawns mewn carchardai*

**1 x Sesiwn Cymorth Ymarfer Creadigol** (lles ymarferwyr ac artistiaid/myfyrio ar eu hymarfer eu hunain gyda Seicotherapydd Dawns/Artist Dawns o Gymru (Cymraeg iaith gyntaf)) yn ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – ar-lein neu wyneb yn wyneb.
**2 x Ddigwyddiad ar-lein i ysbrydoli a chymell ymarferwyr - ymarferwyr sy'n datblygu ac ymarferwyr profiadol.**
**1 x Sesiwn Gymraeg un-i-un/ grŵp bach**
**1 x Fforwm Rhannu Arfer** - pynciau cyfredol i'r sector lle mae partneriaid yn rhannu elfen o'u gwaith na fyddai o bosibl yn weladwy i eraill.
**1 x Sesiwn wybodaeth i raddedigion/artistiaid sy'n datblygu ynghylch hyfforddiant yng Nghymru**
**1 x Ffilm fer wedi'i chynhyrchu gan ganolbwyntio ar un elfen o'r rhaglen hyfforddi**
**1 x Sgwrs Wadd**

**Cyfanswm y digwyddiadau – 39**

**Gwerthuso:**

Gofynnir am adborth ar ôl pob digwyddiad gan y siaradwyr ac arweinwyr gweithdai, ymarferwyr, sefydliadau. Bydd hyn yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i sicrhau gwelliant parhaus ar draws y rhaglen. Ar sail barhaus byddwn yn edrych ar bwy sy'n mynychu'r sesiynau, y cyfuniad o ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein, materion ac anghenion cyfredol y sector, gan gofio mai rhaglen ar gyfer ymarferwyr dawns yw hon felly beth sydd ei angen arnynt nawr beth bynnag fo lefel eu profiad boed yn ymarferwyr ac artistiaid sy'n datblygu neu'n unigolion sydd â chyfoeth o wybodaeth am ddarparu dawns gymunedol. Hoffem i'r Adolygydd Annibynnol arwain cynulliadau, anfon arolygon a chynnal trafodaethau bord gron gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen.

**ATODIAD DAU: Diogelu Annibyniaeth**

Bydd Rubicon yn diogelu annibyniaeth lawn yr adolygydd drwy:

- Cynnal gwahaniad clir rhwng darparu'r rhaglen a rôl werthusol yr adolygydd.
- Datgan a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau, gan sicrhau nad yw unrhyw gysylltiad neu berthnasoedd blaenorol yn peryglu gwrthrychedd.
- Darparu mynediad anghyfyngedig, heb ei hidlo at wybodaeth, rhanddeiliaid a thystiolaeth, heb ddylanwadu ar ddehongliad.
- Osgoi ymwneud â'u methodoleg, eu dadansoddiad neu eu casgliadau, gan gynnig eglurhad ffeithiol yn unig pan ofynnir amdano.
- Gwarantu cyfrinachedd ac ymreolaeth, gan alluogi'r adolygydd i gynnal cyfweliadau, arsylwadau a dadansoddiad heb oruchwyliaeth na phresenoldeb gan staff y prosiect.
- Caniatáu i'r adolygydd gynnal cyfweliadau, arsylwadau, a dadansoddiad heb bresenoldeb staff oni bai bod hynny'n ofynnol am resymau diogelu neu fynediad.
- Rheoli gwrthdrawiadau buddiannau'n rhagweithiol a chynnal cyfrinachedd er mwyn diogelu uniondeb yr adolygiad.
- Ymrwymo i adrodd yn dryloyw ar ganfyddiadau yng ngeiriau'r adolygydd ei hun.

Er mwyn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynu effeithiol, byddwn yn rhoi'r strwythurau canlynol ar waith:

- **Un Pwynt Cyswllt (UPC):** Arweinydd dynodedig sy'n gyfrifol am gyfathrebu, amserlennu, a llif gwybodaeth ynghyd â **llwybrau uwchgyfeirio clir** a phroses ddiffiniedig ar gyfer mynd i'r afael â risgiau, pryderon, neu faterion yn brydlon gydag uwch arweinwyr.
- **Amserlen gyfarfodydd strwythuredig:** Cyfarfod sefydlu, cyfarfodydd gwirio cyfnodol, a chyfarfod adolygu terfynol i gefnogi aliniad a thryloywder.
- **Protocolau cyfathrebu:** Safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer amseroedd ymateb, dogfennaeth, cyfrinachedd, a rhannu data.
- **Grŵp llywodraethu ysgafn:** Yn dwyn ynghyd bartneriaid allweddol h.y. CCC a Rubicon Dance i oruchwylio cynnydd a chefnogi mynediad, gan gynnal annibyniaeth ar yr un pryd.


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

# AM RUBICON DANCE






Rubicon Dance yw'r sefydliad dawns gymunedol hynaf yng Nghymru ac wedi bod yn darparu dawns i bobl o bob oedran a gallu ers 1975. Rydym yn darparu cyfleoedd i ddawnsio i bobl a chymunedau ledled Caerdydd, Casnewydd, a Bro Morgannwg, ac rydym wedi adeiladu enw da cryf a gydnabyddir yn genedlaethol am ein gwaith mewn ysgolion, lleoliadau gofal cymdeithasol ac iechyd, a lleoliadau cymunedol o bob math, yn ogystal ag yn ein stiwdios pwrpasol ein hunain yn Adamsdown.

Mae Rubicon yn datblygu ac yn cefnogi'r sector dawns yng Nghymru drwy ddarganfod, meithrin a churadu talent ble bynnag y bo. Rydym yn darparu amrywiaeth o lwybrau dilyniant i ddawnswyr o bob oedran, gan eu galluogi i archwilio eu cariad tuag at ddawns a ffynnu'n greadigol. Trwy ein grwpiau perfformio a chyrsiau addysg ffurfiol ac anffurfiol, rydym yn annog unigolion i ddatblygu eu sgiliau artistig, ac rydym yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus a rhwydweithio i'r gweithlu dawns ledled Cymru trwy ein Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan.

Ein gweledigaeth yw Cymru amrywiol, fywiog a chynhwysol lle gall unrhyw un, yn unrhyw le, mwynhau llawenydd a buddion dawns, i'w llawn botensial a dyhead. Mae ein gwaith yn y gymuned yn dod â chyfleoedd ysbrydoledig, cynhwysol, diogel a dengar i ddawnsio a symud i bobl yng Nghaerdydd a De Cymru, yn enwedig y rheini a fydd efallai yn wynebu rhwystrau rhag dawnsio. Trwy ein gwaith addysg a gyrfa, rydym yn darparu datblygiad sgiliau, llwybrau dilyniant gyrfa ac addysg ddawns ardderchog i ddarpar ddawnswyr proffesiynol a dawnswyr proffesiynol presennol.

# Ein gweithgareddau elusennol

Gwrthrychau elusennol Ymddiriedolaeth Theatr Dawns Cymru yn masnachu fel Rubicon Dance yw:

> *Er budd y cyhoedd, i faethu, hybu a chynyddu diddordeb y cyhoedd yn wybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer dawns (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddawns gyfoes, dawns gymunedol, a ffurfiau dawns fodern eraill) ac i hybu, helpu a darparu cyfleusterau ar gyfer cyflwyniadau o ddawnsio o'r fath a hyfforddi dawnswyr a choreograffwyr.*

Er mwyn gallu cyflawni ein pwrpas, rydym yn ymgymryd â gweithgareddau o fewn tair prif raglen:

**Addysg**
Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ein Rhaglen Dawns Ifanc, lle rydym yn darparu hyfforddiant dawns TGAU yn ogystal â'n cwrs dawns llawn amser (BTEC lefel 3 Diploma Estynedig). Mae'r ddau gwrs yn paratoi pobl ifanc dawnus o Gymru ar wahanol gamau eu datblygiad ar gyfer mynediad i addysg uwch a'r prif gonservatoires. Cynllunnir y rhaglen TGAU hefyd i ganfod talent drwy weithio gydag ysgolion uwchradd a darparu hyfforddiant dawns o ddwysedd uchel er mwyn annog mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol i ystyried gyrfaoedd yn y sector. Mae'r cwrs llawn amser wedi rhedeg ers 1986 ac yn darparu myfyrwyr â'r sgiliau technegol yn ogystal â'r pwyntiau UCAS angenrheidiol i symud ymlaen at y graddau sy'n cael eu cynnig gan y conservatoires. Ers ei sefydlu, rydym wedi hyfforddi cannoedd o bobl ac yn ymfalchïo'n fawr iawn yn dilyn dilyniant eu gyrfaoedd, ac mae'r cwrs yn rhan bwysig o'r ecosystem ddawns yng Nghymru.

**Dawns Gymunedol**
Yn y rhaglen hon, rydym yn ymgysylltu â chymunedau – yn gyffredinol ond hefyd mewn lleoliadau penodol megis ysgolion, ysbytai a mannau eraill – i'w galluogi i ddawnsio. Rydym yn meithrin cyfranogiad a diddordeb mewn dawns, hunanfynegiant ein cyfranogwyr ac yn darparu cyfleoedd i symud gyda llawenydd lle y gallant fod yn brin. Rydym yn herio safbwyntiau traddodiadol o'r hyn y mae'n golygu i ddawnsio; boed hynny'n lle yr ydym yn dawnsio, gyda phwy yr ydym yn dawnsio, neu sut olwg sydd ar fynegiant artistig. Mae'n mynd y tu hwnt i berfformio mewn lleoliadau theatr traddodiadol ac yn cwmpasu rhestr o ffyrdd amgen o fynegiant artistig sy'n tyfu o hyd.

**Hyfforddiant Cymru Gyfan**
Mae ein Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan yn ceisio ysbrydoli a chynnal dawns gymunedol yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant i unrhyw gyfranogwr sector mewn ffordd strategol, sy'n ymateb i anghenion yr ecoleg dawns. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion cymorth a datblygiad ymarferwyr dawns gymunedol llawrydd o fewn cyd-destun ehangach y tirlun dawns gymunedol ledled Cymru. Trwy'r rhaglen hon, rydym yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu'r sector dawns a gwell darpariaeth dawns gymunedol drwy gynnig cyfleoedd amrywiol, rheolaidd a pherthnasol i ymarferwyr dawns ar bob cam o'u taith gyrfa.

# Perfformiad a chyflawniadau

### Gwaith cymunedol

Yn ystod 2023-2024 cynhaliwyd 1,672 o sesiynau a fynychwyd gan 15,451 o gyfranogwyr yn gorfforol a 531 a oedd yn mynychu yn rhithwir. Roedd cwmpas y gwaith cymunedol a gynhaliwyd gennym yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion ac yn ein stiwdios dawns wedi'u lleoli yng nghalon Adamsdown yng Nghaerdydd. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynnig rhaglenni ardderchog a gwerthfawrogwyd yn fawr mewn cartrefi gofal ac ysbytai, sesiynau ar-lein ar gyfer pobl yn gwella ar ôl gyflyrau meddygol difrifol, ac ein dosbarthiadau rheolaidd i oedolion yn Stiwdios Rubicon Dance.

Roedd y gwaith a wnaethom mewn sesiynau mewn ysbytai yn cynnwys niwroseiciatreg, anafiadau i'r ymennydd, adsefydlu wedi strôc, gwasanaethau iechyd meddwl i'r henoed, a meddygaeth integredig ar gyfer cleifion gyda dementia a dryswch. Hefyd roeddem yn parhau i weithio gyda chyfranogwyr gydag anableddau o bob oedran gan gynnig ystod o sesiynau wedi'u cynllunio i fod yn addas i anghenion a gallu'r cyfranogwyr.

### Gwaith gyrfa ac addysg

Cyflwynwyd 436 sesiwn seiliedig ar gwricwlwm i 19 ysgol yn 2023-2024 a fynychwyd gan 857 o ddisgyblion gyda ffigur mynychu o 7,998. Dros y flwyddyn ddiwethaf roeddem y falch i gael 19 o bobl ifanc drwy eu TGAU Dawns a 15 mwy drwy'r rhaglen BTEC. Roedd ein sioe diwedd y flwyddyn yn arddangosfa ragorol o sgiliau a chreadigrwydd y bobl ifanc anhygoel hyn a chafodd dderbyniad da gan bawb a fynychodd. Mae *The Leverhulme Trust* wedi parhau i gefnogi rhaglen Rubicon i ganfod talent gan weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion uwchradd – mae'r rhaglen yn darparu hyfforddiant dawns o ddwysedd uchel er mwyn annog mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol i ystyried gyrfaoedd yn y sector.

### Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan

Mae Rubicon wedi parhau i ddod â chymuned dawns broffesiynol Cymru at ei gilydd drwy arwain ar Raglen Hyfforddiant Cymru Gyfan a chynnal cyfarfodydd strategaeth a rhwydwaith rheolaidd ledled Cymru. Cynigwyd 96 o sesiynau wedi'u mynychu gan dros 500 o gyfranogwyr proffesiynol, gyda Fforymau Ymarfer a rennir ochr yn ochr â sesiynau Cymorth Lles ac Ymarfer Creadigol un-i-un ychwanegol, sesiynau iaith Gymraeg wedi'u hanelu at hybu hyder mewn defnyddio'r Gymraeg o fewn lleoliadau dawns a chyfres Siaradwyr Gwadd sy'n edrych ar bobl allweddol sy'n gweithio yn ecoleg dawns Cymru..

Mae cyrhaeddiad eang Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan wedi ein galluogi ni i gysylltu ag ymarferwyr dawns ar draws y wlad, gan gynnwys Y Fenni, Bangor, Caernarfon, Caerffili, Caerdydd, Aberteifi, Caerfyrddin, Ceredigion, Arberth, Castell-nedd, Casnewydd, Port Talbot, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

# Rhai o'r adborth a gawsom yn 2023-2024

"Mae pobl yn gallu anghofio am eu hanableddau, anghofio am eu poen. Mae yna ddihangdod ynddo. Mae cerddoriaeth wedi'i gwifro'n ddwfn er waethaf anaf i'r ymennydd ac mae cymryd rhan y eu gwneud nhw'n hapus"

*- Aelod Staff GIG*

"Gyda WWTP, mae'r dull o weithredu yn hollgynhwysol…. Dim ots beth yw'ch oedran neu brofiad mae yna rywbeth i bawb. … Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfleoedd i weithwyr llawrydd …(ac).. maen nhw'n gwrando ar yr hyn sydd angen arnon ni ac yn gwneud popeth a allan nhw i gynnig adnoddau..."

*- Cyfranogwr, Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan.*

"Des i o hyd i Rubicon pan oeddwn i'n 17 oed ac wedi cyrraedd croesffordd am ba lwybr i gymryd. Cefais groeso cynnes gan Rubicon a oedd yn fy meithrin drwy rai o'r blynyddoedd mwyaf pwysig o ddatblygiad i artist uchelgeisiol ifanc. Yn Rubicon, cafodd fy unigolrwydd ei ddathlu, cafodd fy nghreadigrwydd ei herio ac enillais y dechneg a gwybodaeth i sicrhau lle yn ysgolion dawns galwedigaethol lefel gradd.

Ers imi raddio rydw i wedi teithio'r byd yn perfformio. Rydw i wedi dawnsio ar daith y byd y *Queen Mary 2* urddasol, wedi perfformio ar hysbysebion a chyfresi teledu, wedi dawnsio yn nhŷ opera brenhinol Dubai, a dros y 3 mlynedd diwethaf wedi bod ar daith o gwmpas y DU gyda dawnswyr proffesiynol *Strictly Come Dancing*, gan berfformio yn y *West End* am y tro cyntaf yn 2022. Ar hyn o bryd rydw i'n gapten dawns ar daith y DU hynod boblogaidd Johannes Radebe, '*House of JoJo*' ac yn mwynhau bob eiliad. Rydw i mor ffodus fy mod i'n caru fy swydd gymaint, a byddaf i'n ddiolchgar i Rubicon am byth am wneud hyn i gyd yn bosibl"

*- Cyn-fyfyriwr BTEC*

"Dwi'n teimlo bod gen i grŵp arall o ffrindiau nawr yn eich dosbarth ac mae rhai ohonon ni wedi bod yn mynd am goffi! Diolch, Sophie, am dy frwdfrydedd ac am fynd â fy meddwl oddi wrth y poen am sbel fach! "

*- Cyfranogwr Sesiwn Cymunedol*

"Dw i erioed wedi teimlo cysylltiad mor gryf â dawns ledled Cymru ag ydw i drwy Raglen Hyfforddiant Cymru Gyfan"

- *Cyfranogwr*

"Mae dod i ddawnsio yn wych. Mae'n dda i'r ymennydd, gwrthsefyll unigedd, gydag athro anhygoel sydd wastad yn gwenu "

*- Cyfranogwr Sesiwn Cymunedol*

"Efallai bydd gan gleifion wendid corfforol, efallai bod nhw wedi colli'i leferydd neu'n ddi-eiriau. Mae'r sesiynau yn rhoi 'llais' iddyn nhw ac maen nhw'n gallu dangos eu personoliaeth"

*- Aelod staff GI*